GIG CYMRU NHS WALES | Perfformiad a Gwella Performance and Improvement

sands

# Llwybr cenedlaethol ar gyfer gofal mewn profedigaeth

## Llwybr Marwolaeth Newydd-anedig

Gosod teuluoedd wrth galon gofal profedigaeth, ym mhob rhan o Gymru

# Cyflwyniad

**Mae'r llwybr hwn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal mewn profedigaeth o ansawdd uchel i deuluoedd yn dilyn marwolaeth newydd-anedig.**

- **Mae rhagor o wybodaeth ac adnoddau ar gyfer y llwybr hwn ar gael yma.**
- **Mae gwybodaeth am NBCP Cymru, gan gynnwys pecynnau adnoddau, padlets a phecynnau cymorth ar gael yma.**
- **Mae gwybodaeth ategol ac arweiniad cenedlaethol ar gael yma.**

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **2**

**Llwybr Marwolaeth Newydd-anedig** **3**

Pan gall baban farw 3

Cynllunio Gofal Personol 4

Creu atgofion 6

Ailgyfeirio Gofal a Gofal Diwedd Oes 7

Amgylchedd Ffisegol a Diogelwch Emosiynol 8

Ar ôl y farwolaeth 9

**Ymchwiliadau, Archwiliadau ac Adolygiadau** **10**

Gwasanaeth yr Archwilydd Meddygol a'r Crwner 10

Crwner 11

Archwiliad Post-mortem 12

Adolygiad o Farwolaeth Amenedigol 13

Cofrestru ac Ardystio 15

Cofrestru'r enedigaeth (os nad yw eisoes wedi'i gwblhau) 16

Angladdau, Claddu ac Amlosgi 17

Cyn Rhyddhau 18

Ar ôl gadael yr ysbyty 19

# Llwybr Marwolaeth Newydd-anedig

## Pan gall baban farw

Pan fydd pryderon yn codi y gallai baban farw, boed hynny yn ystod beichiogrwydd, ar enedigaeth neu yn ystod y cyfnod newyddenedigol, mae'r gofal yn amserol, yn dosturiol a dan arweiniad clir. Efallai bod gwybodaeth yn dal i ddod i'r amlwg ac efallai y bydd ansicrwydd yn parhau. Mae ffeithiau hysbys yn cael eu rhannu wrth iddynt ddod ar gael, ac mae ansicrwydd yn cael ei gydnabod yn agored.

Mae teuluoedd yn cael eu cefnogi i ddeall beth sy'n digwydd, pwy sy'n gofalu amdanynt, a beth allai ddigwydd nesaf. Mae gofal yn cael ei gydlynu ar draws timau obstetreg, bydwreigiaeth a newyddenedigol fel nad y teuluoedd sy'n gyfrifol am gyfathrebu a chynllunio yn ystod cyfnod hynod drallodus ac ansicr.

### Timau

**Mae gofal tosturiol, cydlynol yn cael ei ddangos pan:**

- Mae cofnodion meddygol yn cael eu hadolygu, gan gynnwys beichiogrwydd blaenorol, colledion a hanes perthnasol.
- Mae gwybodaeth sydd eisoes wedi'i rhannu â'r teulu yn cael ei hegluro cyn cynnal trafodaethau pellach.
- Mae sgyrsiau sensitif yn cael eu cynnal mewn amgylchedd preifat a thawel lle bynnag y bo modd.
- Mae teuluoedd yn cael cynnig cyfle i gael partner neu rywun i'w cefnogi yn bresennol.
- Mae ffeithiau hysbys yn cael eu hegluro'n glir ac mae ansicrwydd yn cael ei gydnabod.
- Mae newidiadau yng nghyflwr y baban yn cael eu cyfleu'n brydlon ac yn gyson.
- Mae cynlluniau yn cael eu hegluro wrth iddynt esblygu, gan gynnwys y camau nesaf tebygol a'r amserlenni disgwyliedig.
- Mae'r cynnig i greu atgofion yn cael ei gyflwyno'n ofalus a heb ragdybiaeth.
- Mae cyswllt allweddol mewn profedigaeth yn cael ei nodi.
- Mae pob trafodaeth yn cael ei nodi'n glir yn y cofnod meddygol.

### Teuluoedd

**Yn ystod y cyfnod hwn, mae teuluoedd:**

- Yn cael gohebiaeth glir a chyson am yr hyn sy'n digwydd.
- Yn deall beth sy'n hysbys a ble mae ansicrwydd yn parhau.
- Yn teimlo bod eu hanes ac unrhyw golledion blaenorol yn cael eu cydnabod.
- Yn cael eu cefnogi i gael partner neu rywun gyda nhw os ydynt yn dymuno.
- Yn gwybod pwy sy'n arwain eu gofal a sut i gysylltu â nhw.
- Yn dechrau clywed am ddewisiadau creu atgofion mewn ffordd sensitif a heb bwysau.
- Yn cael manylion cyswllt mewn argyfwng os ydynt yn dychwelyd adref.

# Cynllunio Gofal Personol

Pan fydd baban yn marw neu wedi marw, mae'r broses cynllunio gofal yn canolbwyntio ar sicrhau bod teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth, cefnogaeth, a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n parhau'n berthnasol iddynt hwy. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal yn breifat ac ar gyflymder sy'n adlewyrchu gallu emosiynol. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n glir ac mewn iaith hygyrch, gydag amser yn cael ei roi i holi cwestiynau a myfyrio.

Gall cynllunio gofal gynnwys penderfyniadau am leoliad gofal diwedd oes, mesurau cysur, creu atgofion, ymchwiliadau a threfniadau ymarferol. Pan fydd angen gwneud dewisiadau, bydd teuluoedd yn cael eu cefnogi i ystyried opsiynau heb bwysau. Mae gofal yn parhau'n dosturiol ac yn gyson ni waeth beth yw'r penderfyniadau a wneir.

**Mae teuluoedd yn cael gwybodaeth glir a realistig am y canlynol:**

- Beth mae newidiadau mewn gofal yn ei olygu yn ymarferol,
- Lle bydd y gofal yn digwydd,
- Pwy fydd yn bresennol,
- Sut bydd y baban yn cael ei gadw'n gyfforddus,
- Beth i'w ddisgwyl yn yr oriau a'r diwrnodau i ddod,
- Sut y gall penderfyniadau effeithio ar ymchwiliadau, archwiliad post-mortem neu greu atgofion,
- Ffynonellau cymorth arbenigol a chymorth gan y trydydd sector.

## Timau

**Mae timau'n cefnogi penderfyniadau gwybodus a phersonol mewn ffordd amserol ac ystyriol. Dangosir hyn gyda'r canlynol:**

- Mae cyswllt profedigaeth allweddol yn cael ei nodi a'i gofnodi'n glir.
- Mae cynllun gofal personol yn cael ei ddatblygu, ei adolygu a'i ddiweddaru wrth i amgylchiadau newid.
- Mae dewisiadau o ran man gofal gan gynnwys cartref neu hosbis, yn cael eu trafod lle bo hynny'n glinigol briodol.
- Mae cynlluniau ar gyfer rheoli symptomau a chysur yn cael eu hegluro'n glir.
- Mae trefniadau cyfathrebu, gan gynnwys pwy fydd yn arwain trafodaethau, yn cael eu cofnodi.
- Mae opsiynau creu atgofion yn cael eu trafod, eu cofnodi a'u hailystyried yn sensitif.
- Mae anghenion ysbrydol, diwylliannol neu grefyddol yn cael eu nodi a'u cofnodi.
- Pan fydd teuluoedd yn dychwelyd adref cyn neu yn ystod gofal diwedd oes, bydd cyngor a manylion cyswllt mewn argyfwng yn cael eu nodi'n glir.
- Mae cefnogaeth seicolegol arbenigol yn cael ei chynnig, gydag amser i deuluoedd ystyried ac ailystyried eu penderfyniad.
- Mae'r holl drafodaethau a chynlluniau y cytunwyd arnynt yn cael eu cofnodi'n glir.

## Teuluoedd

**Mae teuluoedd yn cael gohebiaeth glir a chydlynol am eu dewisiadau, beth i'w ddisgwyl, a phwy sy'n eu cefnogi, ac:**

- Yn gwybod pwy yw eu prif gyswllt mewn profedigaeth a sut mae cysylltu â nhw.
- Yn teimlo bod ganddynt wybodaeth am y dewisiadau sydd ar gael a'u bod yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau ar gyflymder sy'n addas iddyn nhw.
- Yn deall beth fydd yn digwydd a ble bydd y gofal yn digwydd.
- Yn cael gwybodaeth onest a sensitif am yr hyn i'w ddisgwyl, gan gynnwys newidiadau i gyflwr eu baban.
- Yn cael eu cefnogi i ddatblygu neu adolygu cynllun gofal personol sy'n cynnwys creu atgofion.
- Yn teimlo eu bod yn gallu trafod dewisiadau o ran mesurau cysur a rheoli symptomau.
- Yn gwybod pa gymorth seicolegol arbenigol sydd ar gael, ond heb deimlo dan bwysau i wneud penderfyniadau ar unwaith, ac maent yn gwybod y gallant newid eu meddwl.
- Yn gwybod â phwy i gysylltu a sut i gael cymorth os ydynt yn dychwelyd adref.

# Creu atgofion

Mae creu atgofion yn rhan ystyrlon o ofal i lawer o deuluoedd yn dilyn marwolaeth baban, er bod dewisiadau’n amrywio’n fawr. Ar y cam hwn, gall teuluoedd deimlo’n ofnus, wedi’u llethu neu’n ansicr ynghylch beth sy’n teimlo’n iawn iddyn nhw. Mae staff yn darparu cymorth tawel, sensitif ac unigol, gan gynnig dewisiadau heb bwysau na rhagdybiaeth. Mae teuluoedd yn cael gofal sy’n rhoi amser, urddas a dewis iddynt o ran sut maent yn dymuno anrhydeddu a chofio eu baban.

## Timau

### Darperir cymorth personol, sensitif, i greu atgofion pan:

- Mae staff yn esbonio dewisiadau creu atgofion yn glir ac yn dyner, heb ragdybiaeth na phwysau.
- Mae teuluoedd yn cael amser i ystyried opsiynau a newid eu meddyliau.
- Mae’r staff yn gyfarwydd ag adnoddau creu atgofion sy’n cael eu defnyddio’n lleol.
- Mae gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig am dreulio amser gyda’u baban y tu allan i’r ysbyty, gan gynnwys gartref neu hosbis, yn cynnwys canllawiau ac opsiynau lleol ac mae’n cael ei hwyluso mewn ffordd urddasol a thosturiol.
- Mae creu atgofion yn adlewyrchu dewisiadau’r teulu, gan gynnwys iaith, beichiogrwydd, rhywedd, diwylliant, crefydd a chredoau personol.
- Mae penderfyniadau am greu atgofion yn cael eu trafod, eu cofnodi a’u hailystyried wrth i ofal barhau.
- Mewn **beichiogrwydd lluosog**, mae cymorth i greu atgofion yn adlewyrchu’r golled a’r beichiogrwydd sy’n parhau, gyda gofal cydlynol ar draws timau.

## Teuluoedd

### Wrth i staff esbonio’n glir a chefnogi dewisiadau creu atgofion, bydd teuluoedd:

- Yn cael amser a lle i ystyried sut maen nhw’n dymuno nodi a chofio bywyd eu baban.
- Yn cael eu cefnogi i ddeall y dewisiadau sydd ar gael iddynt, heb bwysau i benderfynu.
- Yn cael gwybodaeth glir a sensitif am beth i’w ddisgwyl, gan gynnwys sut y gall creu atgofion effeithio ar sut mae’r baban yn edrych.
- Yn cael gofal sy’n parchu dewisiadau diwylliannol, ysbrydol a phersonol.
- Yn dawel eu meddwl y gallant newid eu meddwl am benderfyniadau i greu atgofion ar unrhyw adeg.
- Yn gweld eu dymuniadau’n cael eu hadlewyrchu yn y gofal a ddarperir.
- Yn gwybod bod cymorth ar gael i frodyr a chwiorydd a’r teulu ehangach.

# Ailgyfeirio Gofal a Gofal Diwedd Oes

Pan ddaw'n amlwg bod cyflwr baban yn dirywio neu fod gofal yn cael ei ailgyfeirio tuag at gysur yn hytrach na gwella, gall teuluoedd wynebu sioc, ofn a blinder emosiynol. Efallai fod rhai wedi rhagweld y posibilrwydd hwn; i eraill gall fod yn sydyn ac yn annisgwyl. Mae'r gofal ar y cam hwn yn gydlynol, yn dosturiol ac yn cael ei arwain yn glir. Mae'r dulliau cyfathrebu'n onest ac yn brydlon, gydag amser i holi cwestiynau a myfyrio. Mae teuluoedd yn cael eu cefnogi i ddeall beth sy'n newid, beth fydd yn digwydd nesaf, a sut bydd eu baban yn cael ei gadw'n gyfforddus. Y tîm clinigol sy'n parhau'n gyfrifol am gydlynu.

## Timau

**Bydd gofal diwedd oes sensitif a chydlynol yn cael ei ddangos pan:**

- Mae newidiadau yng nghyflwr y baban yn cael eu hegluro'n glir ac yn gyson.
- Mae'r rhesymau dros ailgyfeirio gofal yn cael eu trafod yn agored, gan gynnwys beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol.
- Mae mesurau cysur a dulliau rheoli symptomau'r baban yn cael eu hesbonio, gan gynnwys sut y bydd poen neu ofid yn cael ei atal.
- Mae teuluoedd yn cael eu paratoi'n ofalus ar gyfer newidiadau posibl o ran sut bydd y baban yn edrych neu'n ymateb.
- Mae dewisiadau ar gyfer lleoliad gofal diwedd oes yn cael eu trafod lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys yr uned newyddenedigol, y cartref, yr hosbis neu leoliad arall y cytunwyd arno.
- Mae ystyriaethau ymarferol, gan gynnwys trefniadau cludo lle bo hynny'n berthnasol, yn cael eu hegluro'n glir.
- Mae teuluoedd yn cael gwybod y gallant ailystyried penderfyniadau neu eu newid lle bo hynny'n glinigol bosibl.
- Mae creu atgofion yn cael ei drafod a'i gefnogi heb bwysau.
- Mae gofal ysbrydol neu fugeiliol yn cael ei gynnig yn unol â dewisiadau'r teulu.
- Mae staff cymunedol perthnasol yn cael gwybod, gyda chydsyniad, i leihau cyswllt heb gyfiawnhad.
- Mae'r holl drafodaethau a chynlluniau y cytunwyd arnynt yn cael eu cofnodi'n glir.

## Teuluoedd

**Wrth i ofal gael ei ailgyfeirio ac wrth i gynlluniau diwedd oes gael eu gwneud, mae teuluoedd:**

- Yn deall beth sy'n newid a pham.
- Yn gwybod sut bydd eu baban yn cael ei gadw'n gyfforddus.
- Yn cael gwybodaeth onest am yr hyn i'w ddisgwyl.
- Yn teimlo eu bod yn gallu gofyn cwestiynau ac ailedrych ar benderfyniadau.
- Yn cael eu cefnogi i ystyried lle gallai gofal diwedd oes ddigwydd.
- Yn cael cynnig cyfleoedd i greu atgofion.
- Yn teimlo bod eu dymuniadau'n cael eu clywed a'u parchu.
- Yn gwybod pwy sy'n cydlynu eu gofal.

# Amgylchedd Ffisegol a Diogelwch Emosiynol

Mae'r amgylchedd ffisegol lle mae teuluoedd yn cael gofal pan fydd baban yn marw yn cael effaith ddwys ar les emosiynol, diogelwch ac urddas. Gall teuluoedd fod yn sensitif iawn i sŵn, gweld babanod eraill a gweithgarwch cyffredinol ar y ward. Gall dod i gysylltiad â larymau, babanod newydd-anedig yn crio, sgyrsiau dathlu neu arwyddion sy'n ymwneud â babanod ddwysáu trallod. Mae gofal ar y cam hwn yn rhoi blaenoriaeth i breifatrwydd, urddas ac amddiffyniad rhag trawma ychwanegol y gellir ei osgoi.

## Timau

### Bydd diogelwch emosiynol a sensitifrwydd amgylcheddol yn cael eu dangos pan:

- Mae gofod preifat yn cael ei gynnig, gyda chyfleusterau dros nos, i gefnogi urddas ac amser di-dor gyda'r babi.
- Mae llai o symud drwy ardaloedd clinigol prysur.
- Mae llai o gysylltiad â sbardunau sy'n achosi trallod, gan gynnwys cilfachau a rennir neu fannau aros cyhoeddus.
- Mae symbol profedigaeth neu system signalau y cytunwyd arnynt yn lleol yn cael eu defnyddio'n synhwyrol, gyda staff yn deall ei bwrpas.
- Mae pontio rhwng wardiau neu adrannau'n cael ei gynllunio a'i gefnogi fel nad yw teuluoedd yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain neu'n ansicr.
- Mae trefniadau partner neu rywun i gefnogi, gan gynnwys opsiynau dros nos ac unrhyw gyfyngiadau, yn cael eu hegluro'n sensitif.
- Mae teuluoedd yn cael eu tywys i'w hystafell neu eu gofod ac yn cael gwybod sut i gael gafael ar gymorth ar unrhyw adeg.
- Mae dulliau cyfathrebu ger lleoliad y teulu yn aros yn bwyllog, yn barchus ac yn ymwybodol o'u hamgylchiadau.

## Teuluoedd

### Yn amgylchedd yr ysbyty, mae teuluoedd:

- Yn cael gofal mewn man sy'n diogelu preifatrwydd ac urddas.
- Yn cael eu gwarchod cymaint ag y bo modd rhag gweld a chlywed pethau sy'n peri gofid.
- Yn delio â staff sy'n ymwybodol o'u hamgylchiadau ac sy'n cyfathrebu'n sensitif gerllaw.
- Yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth wrth drosglwyddo neu symud o fewn yr ysbyty.
- Yn deall sut i alw am help a chael gafael ar gymorth.

# Ar ôl y farwolaeth

Yn dilyn marwolaeth baban, mae teuluoedd yn aml yn wynebu gwybodaeth, penderfyniadau a phrosesau cymhleth ar adeg o alar acíwt. Mae gofal yn cael ei arwain gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac sy'n cydlynu dulliau cyfathrebu ac yn sicrhau parhad ar draws ymchwiliadau a gwaith dilynol. Mae timau'n gweithio i egluro'r camau nesaf yn glir ac ar gyflymder y mae'r teulu'n gallu delio ag ef. Mae teuluoedd yn cael gofal sy'n lleihau dryswch, yn cefnogi dealltwriaeth ac yn eu sicrhau nad nhw sy'n gyfrifol am gydlynu.

## Timau

**Mae gofal sy'n cael ei gydlynu, ei gyfleu'n glir a'i reoli ar ôl marwolaeth yn cael ei ddangos pan:**

- Mae'r prif gyswllt mewn profedigaeth yn cydlynu gwybodaeth a chyswllt â theuluoedd.
- Mae canllawiau lleol ar waith sy'n nodi'n glir pwy fydd yn arwain trafodaethau am ymchwiliadau a phrosesau dilynol.
- Mae digon o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer trafodaethau, a phan fyddant yn cael eu cynnal mewn lleoliad tawel a phreifat.
- Mae gwybodaeth gymhleth yn cael ei hegluro'n glir ac ar gyflymder y mae teuluoedd yn gallu delio ag ef, ac mae rhywun yn gwneud yn siŵr eu bod yn deall gan ddefnyddio **dulliau cyfathrebu cydnabyddedig.**
- Mae crynodeb ysgrifenedig o'r prosesau a'r dogfennau gofynnol yn cael eu darparu.
- Mae angen trosglwyddo Archwiliadau Post-mortem i ysbyty arall, **yng Nghymru neu'r tu allan iddi**, caiff hyn ei egluro'n glir, gan gynnwys yr amserlenni disgwyliedig.

## Teuluoedd

**Yn dilyn marwolaeth eu baban, mae teuluoedd yn cael gofal sy'n lleihau dryswch ac yn cefnogi dealltwriaeth, ac maent:**

- Yn gwybod pwy sy'n arwain trafodaethau ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gyda dilyniant mewn gofal gan eu prif gyswllt mewn profedigaeth.
- Yn cael digon o amser i drafod ymchwiliadau a'r camau nesaf mewn lleoliad preifat.
- Yn cael gwybodaeth ar gyflymder maen nhw'n gallu delio ag ef ac yn teimlo eu bod yn gallu gofyn cwestiynau.
- Yn cael eu holi a ydynt yn deall beth sy'n digwydd a beth sy'n digwydd nesaf.
- Yn cael gwybodaeth ysgrifenedig i'w cefnogi i ddilyn y prosesau gofynnol.
- Yn gwybod os oes angen trosglwyddo eu baban i ysbyty arall ar gyfer Archwiliad post-mortem, eu bod yn deall y broses.

# Ymchwiliadau, Archwiliadau ac Adolygiadau

## Gwasanaeth yr Archwilydd Meddygol a'r Crwner

Mae'n ofynnol i bob marwolaeth yng Nghymru gael ei harchwilio'n annibynnol gan archwilydd meddygol neu grwner. Mae Gwasanaeth yr Archwilydd Meddygol yn craffu'n annibynnol ar holl farwolaethau plant a babanod newydd-anedig nad ydynt yn farwolaethau drwy grwner. Mae'r broses hon yn frawychus i deuluoedd, ac mae timau'n gwybod pa mor bwysig yw egluro'r broses yn glir heb wneud rhagdybiaethau, gan rannu ffeithiau hysbys yn unig ac osgoi sicrwydd ffug.

### Timau

**Dangosir ymarfer clir a thryloyw pan:**

- Maent yn gweithio yn unol â'r Canllawiau Arfer Da.
- Maent yn rhoi gwybod i deuluoedd y bydd yr Archwilydd Meddygol yn adolygu achos arfaethedig y farwolaeth.
- Maent yn disgrifio sut mae'r broses yn rhyngweithio â phrosesau statudol adolygu marwolaethau plant.
- Maent yn siarad â rhywun annibynnol (yr Archwilydd Meddygol neu aelod o Wasanaeth yr Archwilydd Meddygol ar ei ran) i ofyn cwestiynau am achosion y farwolaeth, codi pryderon am y gofal a gaiff ei ddarparu, a sut bydd hyn yn cael ei rannu â thimau perthnasol.
- Maent yn dweud wrth y teulu y bydd y Dystysgrif Feddygol o Achos y Farwolaeth yn cael ei llofnodi unwaith y bydd y broses wedi'i chwblhau.
- Maent yn dweud wrth y teulu ble fydd eu baban, a phwy sy'n gofalu amdano, yn ystod y broses adolygu.
- Maent yn esbonio bod rhyddhau'r corff y tu allan i gylch gwaith Gwasanaeth yr Archwilydd Meddygol ac y gellir dilyn polisi arferol yr ysbyty, gan gynnwys ymweld.
- Maent yn gofyn a oes unrhyw ffactorau y mae angen eu hystyried, fel amserlenni byr.

### Teuluoedd

**Yn ystod y cyfnod hwn, bydd teuluoedd:**

- Yn cael gwybodaeth glir am y broses, pwy sy'n gysylltiedig, a'r amserlenni tebygol.
- Yn deall ac yn cael cefnogaeth i holi unrhyw gwestiynau am y broses a chodi unrhyw bryderon sydd ganddynt am eu gofal mewn ffordd ddiogel a thryloyw.
- Yn gwybod beth yw'r amserlenni tebygol ar gyfer cael Tystysgrif Feddygol o Achos y Farwolaeth.
- Yn deall sut a phryd y bydd corff eu baban yn cael ei ryddhau, pwy fydd yn gofalu am eu baban yn ystod y cyfnod hwn, a sut y gallant ymweld â'u baban.
- Yn gallu rhannu dewisiadau personol y gallai fod angen eu hystyried yn ystod y broses.

# Crwner

Pan fydd y crwner yn cael gwybod am farwolaeth baban, rhaid rhoi gwybod i'r teulu bob amser a dylid esbonio'r rhesymau dros roi gwybod am y farwolaeth. Ar ôl cael gwybod am farwolaeth baban, efallai y bydd y crwner yn penderfynu y dylid cynnal Archwiliad post-mortem er mwyn ceisio canfod achos y farwolaeth. Nid oes angen caniatâd y teulu i gynnal Archwiliad post-mortem wedi'i orchymyn gan grwner. Os yw'r teulu am wrthwynebu Archwiliad post-mortem a orchmynnwyd gan grwner am unrhyw reswm, dylid ei gynghori i gysylltu â swyddfa'r crwner ar unwaith i drafod pam ei fod yn gwrthwynebu. Efallai y bydd y crwner yn penderfynu agor cwest. Dylid rhoi gwybod i deuluoedd am y broses a dweud wrthynt pwy fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt yn ystod hyn.

## Histoleg

Gall archwiliadau ac ymchwiliadau ar ôl marwolaeth helpu teuluoedd i ddeall pam y digwyddodd y farwolaeth a chefnogi staff i gynllunio gofal yn y dyfodol.

## Timau

**Mae timau sy'n darparu gofal yn rhoi gwybodaeth glir a gonest am yr hyn sy'n cael ei argymell, beth sy'n ddewisol, y cyfyngiadau, a'r amserlen pan fyddant yn egluro:**

- Ei bod yn gyffredin cynnal archwiliad histolegol a faint o amser y gall hyn ei gymryd.
- Pan fydd archwiliad histolegol o'r beichiogrwydd neu'r brych yn cael ei argymell, bydd hyn yn cael ei egluro i'r teulu ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau ar yr archwiliad.
- Efallai na fydd yr archwiliad hwn yn darparu gwybodaeth am achos posibl am y farwolaeth.
- Efallai y bydd ymchwiliadau eraill yn cael eu cynnal, fel profion gwaed a geneteg.

## Teuluoedd

**Mae teuluoedd yn cael gofal clir a gonest pan fyddant yn gwybod:**

- Bod histoleg yn arfer cyffredin ac mai eu dewis nhw yw ei chynnal ai peidio.
- Sut a phryd y maent yn debygol o gael canlyniadau.
- Pa ymchwiliadau eraill y gellir eu cynnal.

# Archwiliad Post-mortem

Gall Archwiliad Post-mortem fod yn rhan o'r broses ymchwilio ar ôl marwolaeth. Gall penderfyniadau ynghylch archwilio fod yn gymhleth, a bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu'n glir ac yn sensitif er mwyn cefnogi dewis gwybodus.

## Timau

### Dangosir ymarfer clir a sensitif pan:

- Mae caniatâd post-mortem yn cael ei roi i aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi a'i gofrestru i gael caniatâd.
- Mae pwrpas, proses a chyfyngiadau Archwiliadau Post-mortem yn cael eu hegluro'n glir ac yn sensitif.
- Mae'r archwiliad yn cael ei gynnal mewn ysbyty arall, gan gynnwys y tu allan i Gymru, caiff hyn ei egluro'n glir ynghyd â'r rhesymau a'r amserlenni disgwyliedig.
- Mae trefniadau cludo a thrin yn cael eu disgrifio'n glir, gan gynnwys pwy sy'n gyfrifol, gyda sicrwydd bod y gofal yn barchus ac yn urddasol.
- Mae amserlenni tebygol ar gyfer dychwelyd corff y baban a phryd bydd y canlyniadau ar gael yn cael eu trafod.
- Mae cyswllt penodol yn cael ei nodi i gydlynu'r gwaith o gyfleu canlyniadau.
- Pan fydd eitemau personol yn mynd gyda'r archwiliad, mae teuluoedd yn cael eu sicrhau bod eitemau'n cael eu trin yn ofalus a'u dychwelyd lle bynnag y bo modd, er na ellir gwarantu hyn.
- Mae teuluoedd yn cael eu cyfeirio at yr adnoddau gwybodaeth sydd ar gael i gefnogi dealltwriaeth o gydsyniad post-mortem.

## Teuluoedd

### Mae teuluoedd yn cael gofal diogel, clir a gwybodus pan fyddant:

- Yn cael esboniadau clir ynghylch pam y gallai post-mortem gael ei argymell.
- Yn deall pwy fydd yn nodi cydsyniad a sut bydd y broses yn cael ei chynnal, gan gynnwys y pwrpas ac unrhyw gyfyngiadau.
- Yn cael gwybod os bydd eu baban yn cael ei drosglwyddo ac yn deall pam.
- Yn teimlo'n dawel eu meddwl ynghylch sut y bydd eu baban yn cael gofal wrth iddo gael ei gludo a'i archwilio.
- Yn deall yr amserlen debygol ar gyfer dychwelyd eu baban ac o ran cael y canlyniad.
- Yn gwybod â phwy i gysylltu ynghylch camau dilynol a chanlyniadau.

# Adolygiad o Farwolaeth Amenedigol

Mae'r Adolygiad o Farwolaeth Amenedigol yn rhan o'r broses adolygu ffurfiol yn dilyn marwolaeth. Mae teuluoedd yn delio â chwestiynau parhaus am farwolaeth eu baban, ac mae gwybodaeth glir am bwrpas, proses a chanlyniadau'r adolygiad yn cael ei darparu'n gyson.

## Timau

### Bydd ymarfer Adolygiad o Farwolaeth Amenedigol yn cael ei gyflwyno'n sensitif a strwythuredig pan:

**Cyn yr adolygiad:**

- Mae pwrpas yr Adolygiad o Farwolaeth Amenedigol yn cael ei egluro'n glir, ac mae gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig yn cael ei darparu.
- Mae amserlenni realistig yn cael eu trafod yn agored, gan gynnwys cydnabod yr amser sydd ei angen i gwblhau'r adolygiad.
- Mae teuluoedd yn cael gwahoddiad i rannu eu safbwyntiau, eu cwestiynau a'u pryderon i lywio'r adolygiad.
- Mae enw cyswllt yn cael ei nodi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ac i ymateb i gwestiynau drwy gydol y broses.

**During the review:**

- Mae cyfarfodydd yn cael eu harwain gan yr uwch glinigydd neu'r clinigwyr sydd wedi darparu dilyniant mewn gofal.
- Mae'r adolygiad yn ystyried gofal clinigol ac emosiynol, gyda mewnbwn gan staff perthnasol, gan gynnwys gwasanaethau cymunedol lle bo hynny'n berthnasol.
- Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol rhwng staff sy'n ymwneud â gofal y fenyw/ sawl sy'n rhoi genedigaeth, gyda'r broses gydlynu'n cael ei harwain gan y prif gyswllt mewn profedigaeth.

**Ar ôl yr adolygiad:**

- Mae cyfarfod dilynol yn cael ei drefnu, gyda gwybodaeth glir yn cael ei darparu am bwy fydd yn bresennol.
- Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn lleoliad tawel a phriodol sy'n cefnogi trafodaeth bwyllog.
- Mae canfyddiadau ymchwiliadau a'r Adolygiad o Farwolaeth Amenedigol yn cael eu hegluro'n glir ac yn sensitif.
- Mae'r camau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad yn cael eu hamlinellu a'u trafod.
- Mae amser yn cael ei neilltuo ar gyfer holi cwestiynau, cael eglurhad, a myfyrio.
- Mae teuluoedd yn cael gwybod bod adroddiad cryno ysgrifenedig ar gael, gyda hyblygrwydd ynghylch sut a phryd y caiff hwn ei rannu.

## Teuluoedd

**Wrth i'r Adolygiad o Farwolaeth Amenedigol gael ei egluro, ei gydlynu a'i ddilyn gan staff, mae teuluoedd:**

- Yn deall pwrpas yr Adolygiad o Farwolaeth Amenedigol a sut mae'n cael ei gynnal.
- Yn gwybod sut y gallant gyfrannu eu safbwyntiau a'u cwestiynau.
- Yn cael diweddariadau yn ystod y broses adolygu ac yn gwybod â phwy i gysylltu.
- Yn cael amserlenni realistig ac yn deall pryd i ddisgwyl gwybodaeth.
- Yn cael esboniad clir o ganfyddiadau'r adolygiad ac unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio ohono.
- Yn teimlo eu bod yn gallu holi cwestiynau a thrafod y canlyniadau mewn lleoliad preifat a phriodol.

# Cofrestru ac Ardystio

I deuluoedd, mae'r camau hyn yn aml yn digwydd ochr yn ochr â galar acíwt a gallant deimlo'n anodd eu deall. Mae'r staff yn tywys teuluoedd drwy'r hyn a fydd yn digwydd a'r hyn sy'n ofynnol, gan rannu gwybodaeth glir ac ymarferol ar gyflymder sy'n addas iddyn nhw. Mae teuluoedd yn cael cymorth sy'n eu helpu i ddeall a chwblhau'r camau hyn heb deimlo eu bod yn cael eu rhuthro na'u llethu.

## Timau

**Bydd cefnogaeth sensitif a chywir yn cael ei rhoi o ran cofrestru ac ardystio pan:**

- Mae'r staff yn egluro'r broses gofrestru genedlaethol yn glir, gan gynnwys ble a sut mae'r cofrestru'n digwydd.
- Mae teuluoedd yn cael gwybod, unwaith y bydd yr Archwilydd Meddygol wedi'i llofnodi, bod y dystysgrif feddygol yn cael ei hanfon yn electronig i swyddfa'r cofrestrydd lleol.
- Mae'r ffaith nad oes copi o'r dystysgrif yn cael ei roi yn uniongyrchol i'r teulu ar y cam hwn yn cael ei esbonio'n glir.
- Mae gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei rhannu i gefnogi'r broses gofrestru, ac mae unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae'n rhaid i'r cofrestrydd ei chael yn cael ei hegluro, gan gynnwys cyfraniad y crwner.

## Teuluoedd

**Wrth i staff arwain teuluoedd drwy'r broses gofrestru ac ardystio, mae teuluoedd:**

- Yn deall sut mae'r farwolaeth yn cael ei chofrestru a pha gamau y mae angen iddynt eu cymryd.
- Yn gwybod bod y dystysgrif feddygol yn cael ei hanfon yn uniongyrchol at y cofrestrydd.
- Yn deall ble a sut mae cofrestru'n digwydd.
- Yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gyda gwybodaeth glir ac ymarferol ac yn gwybod ble i ddod o hyd i ragor o arweiniad os oes angen.

# Cofrestru'r enedigaeth (os nad yw eisoes wedi'i gwblhau)

Mewn rhai achosion, efallai nad yw genedigaeth y baban wedi'i chofrestru eto. Gall teuluoedd wynebu'r broses hon wrth barhau i ymdopi â sioc a galar ar ôl marwolaeth eu baban. Mae esboniad clir a chanllawiau ymarferol yn helpu teuluoedd i ddeall sut mae cofrestru genedigaethau yn cyd-fynd â phrosesau'r crwner a phryd y gellir gwneud hynny.

## Timau

**Mae canllawiau clir ac ymarferol yn helpu teuluoedd i ddeall sut a phryd y gellir cofrestru genedigaethau pan fydd timau:**

- Yn esbonio pryd a sut mae modd cofrestru genedigaethau.
- Yn rhoi gwybod i deuluoedd y gall cofrestru genedigaeth ddigwydd yr un pryd â chofrestru marwolaeth yn aml.
- Yn rhannu gwybodaeth ymarferol ynghylch ble a sut y bydd hyn yn digwydd.

## Teuluoedd

**Pan fydd y broses o gofrestru genedigaeth yn cael ei hegluro'n glir a'i chefnogi gan staff, bydd teuluoedd:**

- Yn deall sut a phryd y byddant yn gallu cofrestru genedigaeth eu baban os nad yw hyn wedi cael ei wneud yn barod.

# Angladdau, Claddu ac Amlosgi

I deuluoedd, mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud yn ystod cyfnod sy'n arwyddocaol yn emosiynol ac efallai y byddant yn teimlo eu bod yn anodd eu trafod. Mae gofyniad cyfreithiol am angladd gyfreithlon os bydd plentyn newydd-anedig yn marw, waeth beth fo cyfnod cario'r baban. Mae staff yn tywys teuluoedd drwy'r dewisiadau sydd ar gael iddynt a'r amserlenni, gan ddarparu gwybodaeth glir a chaniatáu amser iddynt feddwl. Mae teuluoedd yn cael gofal sy'n cefnogi dewis ar sail gwybodaeth ac sy'n parchu sut a phryd mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.

## Timau

**Bydd cefnogaeth sensitif a gwybodus ynghylch y trefniadau hyn yn cael ei chynnig pan:**

- Mae gan staff fynediad at adnoddau gwybodaeth cyfredol i gefnogi trafodaethau am gladdu ac amlosgi.
- Mae teuluoedd yn cael amser i ystyried pob opsiwn, gan gynnwys y cyfle i feddwl gartref cyn cadarnhau penderfyniad.
- Mae penderfyniadau, gan gynnwys pan fydd gwybodaeth yn cael ei gwrthod neu pan na fydd penderfyniad yn cael ei wneud, yn cael eu cofnodi'n glir yn y cofnod mamolaeth.
- Mae rhagdybiaethau'n cael eu hosgoi, gan gynnwys y rhai sy'n seiliedig ar gyfnod beichiogrwydd, diwylliant, crefydd neu gredoau personol.
- Mae atgyfeiriad at ofal ysbrydol neu fugeiliol yn cael ei gynnig, wedi'i arwain gan ddewisiadau'r teulu.

**Mae'r wybodaeth lafar ac ysgrifenedig fydd yn cael ei rhannu â theuluoedd yn cynnwys:**

- Dewisiadau claddu neu amlosgi wedi'u trefnu gan yr ysbyty ac unrhyw gostau cysylltiedig.
- Y broses ar gyfer dewis trefniadau preifat, gan gynnwys manylion trefnwyr angladdau lleol.
- Esboniad clir y gall rhai trefnwyr angladdau ddarparu gwasanaethau sylfaenol yn ddi-dâl, tra gall gwasanaethau ychwanegol arwain at gostau a gwybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael.
- Amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau a'u cyfleu, gan gynnwys proses yr ysbyty os na chaiff penderfyniad ei gyfleu.
- Gwybodaeth am ofynion claddu neu amlosgi brys lle mae'r rhain yn codi am resymau clinigol neu gyfreithiol.

## Teuluoedd

**Wrth i staff esbonio a chefnogi trefniadau, mae teuluoedd:**

- Yn deall yr opsiynau sydd ar gael iddynt ar gyfer claddu neu amlosgi.
- Yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser cyn cadarnhau penderfyniadau.
- Yn deall yr hyn y gall yr ysbyty ei drefnu a'r hyn y gallant ddewis ei drefnu eu hunain.
- Yn cael gwybodaeth glir am gostau, amserlenni a'r cymorth ariannol sydd ar gael.
- Yn teimlo bod eu dewisiadau diwylliannol, crefyddol a phersonol yn cael eu parchu.
- Yn gwybod ble i gael gafael ar ragor o gymorth os oes angen help arnynt i wneud penderfyniadau.

# Cyn Rhyddhau

Cyn rhyddhau, mae’r gofal yn canolbwyntio ar baratoi teuluoedd ar gyfer symud yn ôl adref a sicrhau bod cymorth parhaus wedi’i nodi’n glir. Mae’r gwaith o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion yn cael ei gydlynu a’i amseru i adlewyrchu anghenion, dewisiadau ac amgylchiadau’r teulu. Mae staff yn cymryd cyfrifoldeb am gynllunio’r camau nesaf, cadarnhau trefniadau a rhannu gwybodaeth yn glir ac yn ysgrifenedig. Mae teuluoedd yn cael eu rhyddhau yn ôl y cynllun, yn cael eu cefnogi a hynny heb eu brysio, gan adael yr ysbyty gydag eglurder ynghylch beth fydd yn digwydd nesaf a phwy i gysylltu â nhw.

## Timau

- Mae’r prif gyswllt mewn profedigaeth yn cydlynu’r broses ryddhau mewn ffordd sy’n parchu dewisiadau ac ar gyflymder addas i’r teulu.
- Mae teuluoedd yn cael cynnig gadael yr ysbyty ar wahân i bawb arall, sy’n osgoi clinigau mamolaeth, wardiau neu ystafelloedd aros.
- Pan fydd teulu’n mynd â’u baban adref, bydd y staff yn darparu’r dogfennau trosglwyddo gofynnol, yn egluro sut i ddefnyddio unrhyw offer fel Cot Cwtsh, ac yn caniatáu amser iddynt holi cwestiynau.
- Mae’r trefniadau terfynol y cytunwyd arnynt wedi’u cofnodi’n glir yn y cofnod mamolaeth.
- Mae eitemau sydd heb eu defnyddio neu eitemau sydd wedi’u gwrthod yn cael eu tynnu o focsys atgofion, ac mae unrhyw gofarwyddion yn cael eu pacio’n synhwyrol ac yn barchus.

## Teuluoedd

### Wrth i staff gynllunio a chefnogi’r broses ryddhau, bydd teuluoedd:

- Wedi cwrdd â’u prif gyswllt mewn profedigaeth ac yn deall beth mae’r broses ryddhau yn ei olygu.
- Yn cael amser i ofyn cwestiynau a theimlo’n glir ynghylch beth fydd yn digwydd nesaf.
- Yn gwybod beth yw eu hopsiynau ar gyfer ffarwelio, gan gynnwys gadael yr ystafell brofedigaeth, gadael yr ysbyty, ble bydd eu baban yn cael ei gludo, a sut i ddychwelyd i dreulio amser gyda’u baban os ydynt yn dymuno.
- Wrth fynd â’u baban adref, dylid gwneud yn siŵr bod y dogfennau perthnasol ganddynt, eu bod yn eu deall, a’u bod yn gwybod â phwy i gysylltu os bydd unrhyw anawsterau’n codi.
- Yn gadael yr ysbyty gyda chofarwyddion, os mai dyma yw eu dewis.
- Yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i adael yr ysbyty mewn ffordd urddasol a thosturiol, gan ystyried llwybrau ymadael.

# Ar ôl gadael yr ysbyty

Mae'r Gofal mewn Profedigaeth yn parhau wrth baratoi i adael yr ysbyty a dychwelyd adref. Mae gwybodaeth yn cael ei chydlynu a'i chyfleu'n glir i gefnogi teuluoedd wrth wella'n gorfforol a delio â galar acíwt.

## Timau

### Bydd cymorth dilynol clir a chydlynol yn cael ei ddarparu yn yr amgylchiadau canlynol:

- Mae staff yn egluro pwy fydd yn cysylltu â'r teulu ar ôl eu rhyddhau a sut bydd canlyniadau adolygiadau neu ymchwiliadau yn cael eu rhannu.
- Bydd gwybodaeth am brosesau lleol ar gyfer ôl-drafodaethau, adborth, pryderon a chwynion yn cael ei rhannu.
- Mae gwybodaeth glir yn cael ei rhoi i deuluoedd am boen barhaus, gwaedu a newidiadau corfforol ôl-enedigol, gan gynnwys pryd a sut i ofyn am gyngor meddygol.
- Mae llaethiad yn cael ei drafod yn sensitif, gan gynnwys ataliad, gwasgiad neu roi yn dibynnu ar y cyfnod beichiogrwydd a dewis y fenyw/sawl sy'n rhoi genedigaeth.
- Mae'r cymorth seicolegol ac emosiynol sydd ar gael drwy wasanaethau amenedigol, gofal sylfaenol a sefydliadau trydydd sector yn cael ei egluro.
- Bydd gwybodaeth am reoli gohebiaeth sy'n ymwneud â babanod yn cael ei rhannu, gan gynnwys dewisiadau cynlluniau postio cenedlaethol.
- Caiff yr holl drafodaethau, penderfyniadau a chynlluniau y cytunwyd arnynt eu cofnodi'n glir yn y cofnod meddygol.

## Teuluoedd

### Wrth i drefniadau dilynol gael eu hegluro, eu cydlynu a'u hailystyried gan staff, bydd teuluoedd:

- Yn gwybod pwy fydd yn cysylltu â nhw gyda chanlyniadau unrhyw adolygiadau ac ymchwiliadau.
- Yn gwybod sut i drefnu ôl-drafodaeth a'r broses ar gyfer rhoi adborth, cyfleu pryderon neu gwynion.
- Yn cael gwybodaeth am eu symptomau corfforol, eu proses wella a sut i gael gafael ar ofal parhaus.
- Yn gwybod pa wasanaethau cymorth seicolegol ac emosiynol sydd ar gael iddynt.
- Yn cael gwybodaeth am fudiadau cefnogi lleol a chenedlaethol.
- Yn cael gwybodaeth am reoli gohebiaeth sy'n ymwneud â babanod.

GIG CYMRU NHS WALES

Perfformiad a Gwella

Performance and Improvement